Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Grymuso
# Annibyniaeth

Mae ein hymagwedd yn canolbwyntio ar gryfderau a galluoedd pob unigolyn. Drwy ganolbwyntio ar yr hyn y gall unigolion ei wneud, ein nod yw eu grymuso i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys gweithgareddau meithrin sgiliau a chynlluniau personol i helpu unigolion i gyflawni'r canlyniadau sy'n ddymunol iddynt, yn enwedig ar gyfer y rhai 16+ oed. Mae hyn yn cynnwys paratoi unigolion ar gyfer eu cartrefi eu hunain a lleihau'r angen am leoliadau preswyl.



# PODiau
# Beth ydynt?

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent wedi datblygu dau POD hunangynhwysol newydd yn Nhŷ Augusta i gefnogi unigolion ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth. Wedi'u hariannu gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, mae'r prosiect hwn yn helpu i bontio tuag at fyw'n annibynnol o fewn cymunedau.

- Yn darparu mynediad i dîm amlddisgyblaethol
- Yn datblygu sgiliau byw'n annibynnol ar gyfer unigolion 16+ oed

> Mae gan y POD bopeth sydd ei angen i fyw'n annibynnol, gan gynnwys popty i ddysgu coginio fy mhrydau fy hun a chyfleusterau glanhau i olchi llestri ar ôl pryd o fwyd.
>
> **Josh, preswylydd POD**



# PODiau wedi'u lleoli yn Nhŷ Augusta

## Grymuso Annibyniaeth

Gwella Annibyniaeth Pobl ag Anableddau Dysgu. Profwch y safon newydd mewn cefnogi byw'n annibynnol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent.

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**



# Cyfleusterau Arloesol

Mae'r PODiau yn cynnig amgylchedd croesawgar a chefnogol lle gall unigolion aros. Mae gan bob POD gyfleusterau modern i sicrhau cysur ac annibyniaeth. Mae gan unigolion fynediad at dîm o weithwyr proffesiynol sydd wedi ymroi i wella eu sgiliau byw'n annibynnol. Mae'r dull amlddisgyblaethol yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu ei anghenion a'i nodau personol.

- Cegin ac offer integredig
- Ystafell ymolchi wedi'i haddasu'n llawn
- Ystafell sengl gyda gwely addasadwy
- Lolfa a lle bwyta cyfforddus
- Mynediad ramp i ystafelloedd
- Dyfeisiau technoleg clyfar

# Manteision

**Annibyniaeth Well:**
Helpu unigolion i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fyw'n annibynnol.

**Cymorth Personol:**
Mynediad at ystod o weithwyr proffesiynol i gynorthwyo gydag anghenion penodol.

**Integreiddio Cymunedol:**
Annog unigolion i fod yn aelodau gweithredol o'u cymunedau.

**Amgylchedd Diogel:**
Darparu lle diogel a chefnogol i unigolion ffynnu.



# Cysylltwch â Ni

I gael rhagor o wybodaeth am ein PODiau, cysylltwch â ni:

PODs@blaenau-gwent.gov.uk